Taflen Waith

GWERTH ARIAN

Her Arian Oes Fictoria

Rydym am deithio'n ôl mewn amser i Oes Fictoria. Edrychwch ar y siart sy'n dangos arian Oes Fictoria a'i werth.

Punt	→	20 swllt
Swllt	→	12 ceiniog
Ceiniog	→	Dwy ddimai neu bedair ffyrling
Gini	→	21 swllt
Sofren	→	Punt
Hanner Coron	→	2 swllt a chwe cheiniog
Fflorin	→	2 swllt
Darn Chwecheiniog Gwyn	→	6 cheiniog
Tair Ceiniog	→	3 cheiniog

Atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Sawl Sofren sydd mewn pum Punt?
2. Sawl Ffyrling sydd mewn Darn Chwecheiniog Gwyn?
3. Sawl Fflorin sydd mewn Punt?
4. Sawl Ceiniog sydd mewn Fflorin?
5. Rwy'n mynd i siopa ac yn gweld eitem sy'n costio un Swllt. Mae gen i Ddarn Chwecheiniog Gwyn a deg Dimai. Alla i brynu'r eitem?
6. Sawl ceiniog sydd mewn Hanner Coron?
7. Fyddai'n well cael deuddeg Fflorin neu un Gini?
8. Sawl darn Tair Ceiniog fyddai'n gyfwerth â dau Swllt?
9. Sawl Ffyrling sydd mewn Fflorin?
10. Sawl ceiniog sydd mewn Sofren?
11. Pe bai gen i ddwy Gini ac yn prynu rhywbeth gwerth dwy bunt, sawl Swllt fyddwn i'n ei gael mewn newid?
12. Mae gen i bedair Fflorin, tri Swllt, chwe Dimai ac wyth Ffyrling. Faint sydd gen i gyda'i gilydd mewn ceiniogau?

Ceisiwch ddarganfod beth y gallech ei brynu gyda phunt yn Oes Fictoria a'i gymharu â beth y gallech ei brynu am bunt heddiw? Ydy Punt yn werth yr un peth nawr? Ceisiwch ddarganfod faint fyddai cost torth o fara yn Oes Fictoria a'i chost heddiw.

Darparwyd gan Nationwide – ar gael ar www.NationwideEducation.co.uk